# Geirfa'r Themâu Trawsbynciol

Mae'r ddogfen hon yn darparu geirfa sy'n egluro ystod o ymadroddion / geiriau / terminoleg y cyfeirir atynt yn y Dogfennau Allweddol a'r Dogfennau Matrics ar Themâu Trawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer rhaglenni 2014-20.

## Cynnwys


**A ........ 1**
**B ........ 2**
**C ........ 3**
**D ........ 5**
**E ........ 6**
**Ff ........ 6**
**G ........ 6**
**H ........ 7**
**Ll ........ 7**
**M ........ 8**
**O ........ 8**
**R ........ 10**
**Rh ........ 10**
**S ........ 11**
**T ........ 12**
**U ........ 13**
**Y ........ 13**

## A

**Ailbennu Rhywedd:** Y broses o newid o un rhywedd i un arall. Gall hyn gynnwys newid nodweddion rhywiol corfforol person trwy driniaeth feddygol megis llawdriniaeth neu driniaeth hormonau.

**Allgau Cymdeithasol:** Mae'n cynnwys diffyg neu gael gwrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gyfranogi yn y perthnasoedd a'r gweithgareddau arferol sydd ar gael i'r mwyafrif o bobl mewn cymdeithas, boed mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a thegwch a chydlyniant cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

**Allgymorth:** Yr ymwneud gan sefydliad â'r gymuned.

**Anabl:** Dylid gofyn i gyfranogwyr a ydynt yn ystyried eu bod yn berson anabl oherwydd y rhwystrau (rhwystrau o ran agwedd, rhwystrau amgylcheddol a rhwystrau sefydliadol) sy'n eu hatal rhag cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd.

**Anabledd (Model Cymdeithasol o Anabledd):** Caiff hwn ei ddiffinio fel "Yr anfantais neu'r cyfyngiad ar weithgaredd a achosir gan sefydliad cymdeithasol cyfoes nad yw'n rhoi llawer o ystyriaeth neu nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i bobl sydd â namau ac sydd felly'n eu hallgau o brif ffrwd cymdeithas." Gall person ystyried ei fod yn anabl oherwydd y rhwystrau (rhwystrau o ran agwedd, rhwystrau amgylcheddol a rhwystrau sefydliadol) sy'n ei atal rhag cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd.

**Anabledd:** Mae gan berson anabledd os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith anffafriol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau beunyddiol.

**Anfanteision Lluosog:** Gall person brofi anfanteision lluosog mewn sawl ffordd ac un enghraifft fyddai person ifanc a gafodd broblemau niferus gan gynnwys digartrefedd, anabledd, iechyd meddwl gwael, problemau llythrennedd ac iaith, problemau gyda'r gyfraith, problemau gyda chyffuriau ac alcohol, a'r teulu'n chwalu, a hynny'n arwain at dreulio amser mewn gofal.

**Arbed Ynni:** Mae hyn yn cyfeirio at leihau'r ynni a ddefnyddir trwy ddefnyddio llai ar wasanaeth ynni. I gael mwy o wybodaeth am arbed ynni ewch at wefan Cymru Effeithlon
http://resourceefficient.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy

**Ategol:** Cynnig cymorth a help ychwanegol.

B

**BBaCh:** Busnesau Bach a Chanolig. Mae busnesau bach yn cynnwys hyd at 50 o bobl, a busnesau canolig yn cynnwys rhwng 50 a 200 o bobl.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth:** Os yw rhywun mewn cyflogaeth, mae'n anghyfreithlon i'r cyflogwr hwnnw ddiswyddo'r person am ei bod yn feichiog neu am resymau sy'n gysylltiedig â'i beichiogrwydd neu ei habsenoldeb mamolaeth. Mae hefyd yn anghyfreithlon i'r cyflogwr hwnnw wrthod i'r person gael tâl gwyliau, tâl salwch, hyfforddiant neu unrhyw fudd cytundebol arall y mae gan bob cyflogai hawl iddo.

- Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth.
- Y tu allan i'r gwaith, diogelir menywod rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol am ei bod yn bwydo o'r fron.

**Biomas:** Deunydd biolegol yw hwn sy'n deillio o organebau byw, neu a oedd yn fyw yn ddiweddar. Fel ffynhonnell ynni, gellir defnyddio biomas naill ai'n uniongyrchol trwy ei hylosgi i gynhyrchu gwres, neu'n anuniongyrchol ar ôl ei drosi'n ffurfiau amrywiol o fiodanwydd. Gellir trosi biomas yn fiodanwydd trwy wahanol ddulliau y gellir eu rhannu'n fras yn ddulliau thermol, cemegol a biocemegol.

**Bionwy/ Biodiesel**: Mae **Bionwy** yn nodweddiadol yn cyfeirio at gymysgedd o wahanol nwyon a gynhyrchir gan ymddatodiad sawl mater organig yn niffyg peth ocsigen. Gall bionwy gael ei gynhyrchu o ddeunyddiau crai sydd ar gael yn rhanbarthol megis gwastraff wedi'i ailgylchu. Mae'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy ac mewn llawer o achosion mae'r ôl carbon y mae'n ei adael yn fach iawn. Mae **biodiesel** yn cyfeirio at danwydd diesel sy'n seiliedig ar olew llysiau neu fraster anifeiliaid ac sy'n cynnwys esterau alcyl hirgadwynog (methyl, ethyl neu probyl). Caiff biodiesel ei wneud yn nodweddiadol trwy achosi adweithiad cemegol rhwng lipidau (e.e. olew llysiau, braster anifeiliaid) a math o alcohol, i gynhyrchu esterau asid brasterog.

**BREEAM:** Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu
http://gov.wales/topics/businessandeconomy/business-wales/design/breeam/?lang=cy

**Busnesau bach –** Cwmnïau bach sy'n cyflogi 10 i 49 o weithwyr a chanddynt drosiant o lai na €10 miliwn y flwyddyn.

**Bwlch Digidol:** Mae'r term "bwlch digidol" yn disgrifio'r bwlch cynyddol canfyddedig rhwng y rhai â mynediad at Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a'r sgiliau i'w defnyddio a'r rhai sydd, am resymau economaidd-gymdeithasol a/neu ddaearyddol, â mynediad cyfyngedig neu heb fynediad o gwbl. Roedd pryder arbennig y byddai TGCh yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol. Nodwyd nifer o feysydd a oedd yn achosi pryder penodol, sef y gallai pobl fod dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol, eu hoedran, eu rhywedd, eu diwylliant a/neu eu statws economaidd.

C

**Caffael cynaliadwy:** Proses o brynu nwyddau, gwasanaethau a thrydydd partïon ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n ystyried ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â ffactorau ariannol.

**Canolfan Gyflogaeth**: Ardal lle byddai rhywun o bosibl yn dod o hyd i nifer fawr o gyfleoedd cyflogaeth.

**Carbon niwtral:** Mae carbon niwtral (ôl troed carbon net sero) yn cyfeirio at gyflawni allyriadau carbon net sero trwy gydbwyso swm wedi'i fesur o garbon sy'n cael ei ryddhau â swm cyfatebol sy'n cael ei ddal a'i storio neu ei wrthbwyso.

**Celloedd Tanwydd Hydrogen:** Dyfais yw cell danwydd sy'n trosi'r egni cemegol o danwydd yn drydan trwy adweithiad cemegol gydag ocsigen neu ocsidydd arall.

**Crefydd a Chred:** Mae ystyr crefydd yr un fath â'r ystyr a roddir i'r term fel arfer ond mae cred yn cynnwys daliadau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Ar y cyfan, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw eich bywyd.

**Cydraddoldeb:** Hawl grwpiau gwahanol o bobl i fod â safle cymdeithasol tebyg ac i gael yr un driniaeth. Rhoi chwarae teg o ran hybu cyfleoedd i bawb a thrin pobl yn gyfartal ni waeth beth fo'u rhyw, hil, oedran, anabledd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, statws HIV, crefydd neu gred, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, dosbarth neu euogfarn droseddol amherthnasol. Rhaid i gydraddoldeb gael ei integreiddio ym mhob agwedd ar bolisi cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, cyflogau, dyrchafiad, hyfforddiant a chadw swydd.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Nid yw Amrywiaeth a Chydraddoldeb yn dermau y gellir eu defnyddio yn lle ei gilydd. Mae amrywiaeth yn disgrifio'r ystod o wahaniaethau gweladwy ac anweladwy rhwng pobl tra bo cydraddoldeb yn golygu bod â'r un gwerth, gan awgrymu cyfartaledd. Pan ydym yn sôn am amrywiaeth, rydym felly'n cyfeirio at harneisio'r gwahaniaethau hyn i greu amgylchedd cynhyrchiol lle mae pawb yn teimlo bod gwerth iddynt, lle caiff talentau eu defnyddio'n llawn a lle caiff nodau sefydliadol eu cyrraedd.

**Cydraddoldeb Rhywiol:** Y nod o ddarparu statws cyfartal i fenywod a dynion ym mhob agwedd ar gymdeithas.

**Cyfeiriadedd Rhywiol:** Pa un a yw rhywun yn cael ei ddenu at rywun o'r un rhyw ynteu'r rhyw arall neu'r ddau ryw.

**Cyfle Cyfartal:** Atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng pobl ar sail rhyw neu statws priodasol, am resymau hiliol, neu oherwydd anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, iaith neu darddiad cymdeithasol, neu nodweddion personol eraill, gan gynnwys daliadau neu farn, megis daliadau crefyddol neu farn wleidyddol.

**Cyfleusterau microgynhyrchu:** Cynhyrchu gwres a/neu drydan ar raddfa fach o ffynhonnell carbon isel. Fel a ddiffinnir yn Strategaeth Microgynhyrchu y DU 'Our Energy Future' 2005.

**Cyflogaeth Gylchdro:** Unigolion sy'n newid swyddi neu gyflogwyr yn weddol reolaidd neu gyflogwyr sy'n cyflogi unigolion am gyfnodau byr, ac sy'n gyson yn newid y gweithlu.

**Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar y Gallu i Weithio:** Mae gan berson gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio os yw'n ystyried ei fod yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth oherwydd cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol)

- Fel gyda phobl anabl, y cyfranogwyr ei hun ddylai ddatgan hyn. Hynny yw, dylid gofyn i gyfranogwyr a ydynt yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth oherwydd cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

**Cyfranogwyr:** Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Dylai cyfranogiad fod yn gysylltiedig â chanlyniadau penodol a dylai alw am lefel ystyrlon o ymwneud, er enghraifft cwrs hyfforddi. Mae hyn yn eithrio unigolion sy'n mynychu cynadleddau neu unigolion sy'n syml yn cael gwybodaeth.

**Cyfrifoldebau gofalu:** Ystyr gofalwr yw unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth ar sylweddau yn methu ymdopi heb ei gymorth (Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr http://www.carers.org/what-carer).

**Cymalau Cymdeithasol:** gweler y cyfeiriad at y term Manteision Cymunedol.

**Cynaliadwy:** Ymgais i greu'r canlyniadau gorau i'r amgylcheddau dynol a naturiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am gyfnod amhenodol. Mae'n ymwneud â pharhad agweddau economaidd, cymdeithasol, sefydliadol ac amgylcheddol ar y gymdeithas ddynol, yn ogystal â'r amgylchedd an-ddynol.

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi:** Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn nodi'r cyfeiriad i Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd leihau tlodi a gwella canlyniadau i bobl o aelwydydd incwm isel. Nodir chwe blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu, sef: y blynyddoedd cynnar; cyrhaeddiad addysgol; gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; gostwng nifer yr aelwydydd heb waith; sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd a thai o ansawdd uchel ac adfywio. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i fwriadu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn awr ac atal tlodi yn y dyfodol. I gael mwy o wybodaeth sy'n nodi'r hyn sy'n cael ei wneud yng Nghymru gweler Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y mae Adroddiad Blynyddol 2014 yn seiliedig arno.

**Cynllun Teithio:** Pecyn o fesurau ymarferol, sydd wedi'u teilwra i amgylchiadau safleoedd unigol, i leihau'r defnydd o geir i deithio i'r gwaith ac i deithio ar gyfer busnes, i leihau effaith amgylcheddol teithio a lleihau'r angen i deithio o gwbl ar gyfer gwaith.

**Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol:** Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, a gynhyrchir gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn nodi'r polisïau, cynlluniau a blaenoriaethau rhanbarthol o ran trafnidiaeth, yn unol â chanlyniadau hirdymor a blaenoriaethau strategol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Cynlluniau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw (DRT):** math o drafnidiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw gan gynnig amserlenni hyblyg, a chan weithredu ar sail trafnidiaeth a rennir yn ôl anghenion teithwyr. Gall systemau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd lle mae'r galw ymhlith teithwyr yn isel, lle nad yw gwasanaeth bws rheolaidd mor hyfyw o bosibl, a/neu i deithwyr anabl. Gan hynny, gall cynlluniau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw gael eu cyllido'n llawn neu'n rhannol gan yr awdurdod trafnidiaeth lleol, fel darparwyr trafnidiaeth sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Fel arall mae rhai lleoliadau'n defnyddio'r term DART, neu Cludiant Galw'r Gyrrwr.

**Cysgodi Swydd:** Dilyn rhywun arall tra'i fod yn gweithio er mwyn dysgu am swydd y person, gyda golwg ar ddysgu sgiliau newydd.

**Cytundebau Lefel Gwasanaeth:** Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn gytundebau neu gontractau gyda chyflenwyr sy'n diffinio'r gwasanaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu, y lefel o wasanaeth y mae'n rhaid ei darparu ac sy'n esbonio cyfrifoldebau a blaenoriaethau.

D

**Datblygu cynaliadwy:** Ystyr datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n bodloni anghenion y presennol heb effeithio'n andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**Deunydd Ailgylchu:** Unrhyw gynhyrchion y gellir eu hailgylchu megis agregau, gwydr, pren, plastigau, metelau, papur a cherdyn, deunyddiau bioddiraddadwy a chynhyrchion sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes megis ceir, oergelloedd ac offer trydanol.

**Dŵr llwyd:** Y dŵr gwastraff o fathau, cawodydd a basnau ymolchi. Gall gael ei gasglu mewn system ailddefnyddio a'i drin i safon sy'n addas ar gyfer dwrlif mewn toiled.

**Dyluniad sy’n Defnyddio Ynni Haul Goddefol:** Prif amcan Dyluniad Ynni Haul Goddefol yw darparu amgylchedd dan do cysurus ac iach mewn adeilad am gost isel o ran ynni a’r amgylchedd. Mae’n dibynnu ar yr egwyddorion canlynol:

- gwneud darpariaeth ar gyfer manteisio ar ynni’r haul ac osgoi colli gwres er mwyn lleihau i’r eithaf yr angen am wresogi artiffisial;
- darparu mynediad at olau dydd i leihau’r angen am oleuadau artiffisial;
- defnyddio system awyru naturiol i osgoi dibyniaeth ar systemau mecanyddol, yn enwedig aerdymheru.

## E

**Economaidd Anweithgar:** Mae hyn yn cyfeirio at bawb o oedran gweithio sy’n weddill ar ôl cyfrif pobl gyflogedig a phobl ddi-waith.

**Economaidd Weithgar:** Person sydd naill ai’n gyflogedig neu’n ddi-waith mewn cyfnod penodol – fel arfer yn ystod wythnos yr arolwg. Mae pobl sy’n economaidd weithgar yn cyflenwi, neu mae arnynt eisiau cyflenwi, eu llafur i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau.

**Eiriolaeth:** Cynnig cymorth cyhoeddus ac awgrymu syniadau, datblygiad neu ffyrdd o wneud pethau.

**Ethnigrwydd:** Nid yw cwestiynau ynghylch tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni na dinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang, h.y. gall dinasyddion y DU berthyn, er enghraifft, i un o’r grwpiau canlynol: Du, Du Prydeinig, Du Seisnig, Caribïaidd, Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd, Treftadaeth ddeuol, Gwyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Sipsiwn / Teithwyr / Romani ac ati.

## Ff

**Ffynonellau eilaidd ac wedi’u hailgylchu:** Nwyddau neu ddeunyddiau sydd naill ai wedi cael eu defnyddio’n flaenorol neu wedi cael eu hailgylchu yn y cyfamser.

## G

**Gofal Plant:** Mae unigolyn â chyfrifoldebau gofal plant yn golygu’r prif ofalwr (rhiant neu warcheidwad) am blentyn o dan 16.

**Gwahanu fertigol:** Ystyr hyn yw pan fo’r cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa mewn diwydiant neu sector ar gyfer un o’r rhywiau’n llai nag ar gyfer y llall. Mae gwahanu fertigol yn effeithio’n anghymesur ar fenywod yn fwy na dynion. Er enghraifft, mae menywod yn llai tebygol o weithio fel rheolwyr neu uwch swyddogion na dynion – dim ond 11% o’r holl fenywod sydd mewn cyflogaeth o’i gymharu ag 19% o ddynion.

**Gwahanu Galwedigaethol:** Mae hyn yn disgrifio crynodiad o ddynion a menywod mewn gwahanol fathau o swyddi.

**Gwahanu llorweddol** yw pan fo'r gweithlu mewn diwydiant neu sector arbennig yn cynnwys un rhyw arbennig yn bennaf. Ceir un enghraifft o wahanu llorwedd yn y diwydiant adeiladu lle mae 90% o weithlu'r diwydiant yn ddynion, ac mae gofal plant bron yn gyfan gwbl yn alwedigaeth i fenywod.

**Gweithredu Cadarnhaol (Rhywedd):** Pan all cyflogwr ddangos, o fewn yr amodau gofynnol, bod aelodau o un o'r ddau ryw heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ardal arbennig neu weithlu arbennig, mae adrannau 47 a 48 o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw yn caniatáu gweithredu cadarnhaol er mwyn: annog aelodau o'r rhyw sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd manteision i wneud math arbennig o waith; a hyfforddi'r rhyw sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i'w paratoi ar gyfer y math hwnnw o waith. Mae Adran 47(3) o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw yn caniatáu hyfforddiant i helpu'r rhai a fu heb gyflogaeth lawn-amser oherwydd cyfrifoldebau cartref neu gyfrifoldebau teuluol i fynd yn ôl i weithio.

**Gweithredu Cadarnhaol (Cyffredinol):** Y diffiniad eang yw ystod o weithgareddau megis cyflwyno gweithdrefnau neu bolisïau dethol anwahaniaethol sydd wedi'u bwriadu i atal aflonyddu. Enghreifftiau eraill yw cynhyrchu deunyddiau ysgrifenedig mewn ffont a maint y mae'n hawdd i bobl ag anawsterau gweld eu darllen (Safon Ofynnol Arial 14), neu ddarparu cyfleoedd gwaith â chymorth i'r 'person a fyddai'n elwa fwyaf o'r cyfle gwaith'. Nid yw Gweithredu Cadarnhaol yn golygu'r un peth â 'gwahaniaethu cadarnhaol'. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad B.

**Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP):** Cynhyrchu ynni thermol a thrydan defnyddiol yn olynol o'r un ffynhonnell tanwydd.

**Gwresogydd Dŵr Solar Thermol:** System wresogi sy'n defnyddio ynni'r haul i wresogi hylif, sydd yn ei dro'n trosglwyddo gwres i ddŵr mewn llestr storio. Wedyn caiff dŵr ei storio a chaiff ei dymheredd ei gadw nes bod ei angen.

## H

**Hil:** Mae hyn yn cyfeirio at nodweddion gwarchodedig Hil h.y. grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), a tharddiad ethnig neu genedlaethol.

## Ll

**Lliniaru:** Gwneud rhywbeth yn llai niweidiol, annymunol neu ddrwg.

## M

**Manteision Cymunedol (a adwaenir hefyd fel Cymalau Cymdeithasol):** Ystyr Manteision Cymunedol yw amcanion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, neu gyfuniad o'r rhain, a gyflawnir fel rhan o gyflawni contractau caffael cyhoeddus. Yn gyffredinol, dylai Manteision Cymunedol fod yn bethau a wneir yn ychwanegol at yr hyn a fyddai wedi cael ei wneud beth bynnag. Mae cynnwys 'manteision cymunedol' neu 'ofynion cymdeithasol' mewn contractau caffael cyhoeddus wedi'i fwriadu i sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth dendro am gontractau adeiladu, gwasanaethau neu gyflenwadau.

**Menter Gymdeithasol:** Diffiniad Llywodraeth Cymru o fentrau cymdeithasol yw busnesau ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y mae eu gwargedion yn bennaf yn cael eu hailfuddsoddi at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na bod y busnes yn cael ei ysgogi gan yr angen i gynyddu i'r eithaf yr elw ar gyfer cyfranddalwyr neu berchnogion.

**Mynediad/Hygyrch:** Mae mynediad yn cynnwys sawl maes, er enghraifft:

- Mynediad at lenyddiaeth/deunydd marchnata e.e. trefnu bod y rhain ar gael mewn fformatau amrywiol e.e. Braille, print bras, tâp sain a.y.b.
- Mynediad ffisegol at adeiladau e.e. sicrhau bod yr holl unigolion yn gallu mynd i mewn i adeilad a gwneud defnydd llawn o'r adeilad a'i gyfleusterau ni waeth pa un a ydynt yn anabl ai peidio e.e. rampiau a drysau/coridorau llydan ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, arwyddion Braille a lifftiau gyda chyhoeddiadau llafar i gynorthwyo unigolion dall neu rai sy'n gweld yn rhannol a.y.b.
- Mynediad at wasanaethau h.y. sicrhau bod y gwasanaeth y mae sefydliad yn ei ddarparu ar gael i grŵp mor eang â phosibl, ac yn cael ei ddefnyddio gan grŵp mor eang â phosibl, o bobl y mae wedi'i fwriadu i'w gwasanaethu neu'u cynorthwyo.
- Ymgynghori h.y. darparu cyfleoedd i gynnwys pobl o fewn y sefydliad a'r tu allan i'r sefydliad i ddylanwadu ar benderfyniadau, dyluniad, polisi a.y.b.
- Pwyllgorau e.e. ystyried cyfansoddiad y Pwyllgor, a yw'n briodol ar gyfer ei ddiben? E.e. trawstoriad o ddynion, menywod, grwpiau oedran, unigolion anabl ac unigolion nad ydynt yn anabl a.y.b.

## O

**Oedran:** Person sy'n perthyn i oedran arbennig (e.e. pobl 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. pobl 18 – 30 oed)

## P

**Panel Ffotofoltaidd:** Casgliad gwastad o gelloedd solar i droi ynni'r haul yn drydan.

**Partneriaeth Sifil:** Gall perthnasoedd cyplau sy'n cynnwys dau berson o'r un rhyw gael eu cydnabod yn gyfreithiol hefyd fel 'partneriaethau sifil' sy'n rhoi hawliau tebyg i hawliau cyplau priod. Rhaid i bartneriaid sifil beidio â chael eu trin yn llai ffafriol na chyplau priod (ac eithrio lle caniateir hynny gan y Ddeddf Cydraddoldeb)

**<u>Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig:</u>** Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yw'r derminoleg a ddefnyddir yn y DU i ddisgrifio pobl o dras heb fod yn wyn.

- Nid yw cwestiynau ynghylch tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni na dinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang.
- Mae grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys pobl a allai fod yn wynebu rhwystrau wrth geisio mynediad at gyfleoedd yng Nghymru oherwydd eu tarddiad ethnig.

**Polisi Cyfle Cyfartal:** Mae Polisïau Cyfle Cyfartal yn bolisïau a ysgrifennir gan gyflogwr neu sefydliad er mwyn gweithio tuag at gydraddoldeb mewn meysydd megis recriwtio, dethol, hyfforddiant, datblygiad a dyrchafiad staff, arfarnu a gweithdrefnau disgyblu ac ati.

**Prif Ffrydio Cydraddoldeb:** Mae 'prif ffrydio' cydraddoldeb yn golygu integreiddio parch tuag at egwyddorion, strategaethau ac arferion amrywiaeth a chyfle cyfartal yng ngwaith pob dydd corff yn y sector preifat neu gyhoeddus. Mae'n golygu y dylid cynnwys materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf fel rhan annatod o'r broses o lunio polisïau a gweithdrefnau a darparu gwasanaethau ac y dylai cyflawni cydraddoldeb ddylanwadu ar bob agwedd ar waith pob unigolyn mewn sefydliad. Dylid mesur llwyddiant prif ffrydio trwy gynnal gwerthusiad i ganfod a lwyddwyd i leihau anghydraddoldebau.

**Prif Ffrydio Rhyw** (Diffiniad yr Undeb Ewropeaidd): Mae Prif Ffrydio Rhyw yn golygu gofalu bod yr holl fesurau a gweithrediadau cyffredinol yn rhoi ystyriaeth yn agored ac yn fwriadol – wrth gynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso – i'w heffeithiau ar sefyllfaoedd menywod a dynion yn eu tro. Mae hefyd yn cynnwys gwaith cyflenwol i ddylunio, gweithredu, monitro a gwerthuso mesurau a gweithrediadau penodol er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a chynorthwyo menywod i gymryd rhan a chael budd mewn modd cyfartal.

**Priodas:** Nid yw priodas yn gyfyngedig i undod rhwng dyn a menyw mwyach ond mae bellach yn cynnwys priodas rhwng cyplau sy'n ddau person o'r un rhyw.

## R

**RAMSAR:** Mae safleoedd Ramsar wedi'u dynodi dan y Confensiwn Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol. Mabwysiadwyd y Confensiwn yn Ramsar, Iran, ym 1971 ac fe'i cadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ym 1976. Ar hyn o bryd mae 150 o Bartïon Contractio wedi ymrwymo i'r Confensiwn gyda 1556 o safleoedd gwlypdir wedi'u dynodi ar gyfer eu cynnwys yn Rhestr Ramsar o Wlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol. Ceir mwy o wybodaeth am Gonfensiwn Ramsar ar y wefan, www.ramsar.org.

**Rolau Annhraddodiadol:** Torri set o normau ymddygiad canfyddedig sy'n gysylltiedig yn arbennig â dynion a menywod mewn grŵp cymdeithasol penodol e.e. cynyddu nifer y menywod mewn swyddi sy'n cael eu hystyried yn bennaf yn rhai i ddynion megis plymwyr neu drydanwyr neu gynyddu nifer y dynion sy'n gweithio ym maes nyrsio neu ofal plant.

## Rh

**Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf:** Mae'r rhaglen hon yn darparu cyllid ar gyfer Cyrff Cyflawni Arweiniol mewn ardaloedd awdurdodau lleol a adwaenir fel Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i leihau'r bylchau economaidd a'r bylchau o ran addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf amddifadus a mwyaf cefnog.

**Rhaglenni Iechyd yn y Gweithle:** Nifer y rhaglenni iechyd yn y gweithle a ddatblygir ac a weithredir gan gyflogwyr gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r ddarpariaeth yn y gweithle o ran cymorth i gyflogeion sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Er enghraifft, rhaglenni i roi cymorth i bobl gyflogedig reoli cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn y gwaith a rhaglenni i hyfforddi rheolwyr i roi cymorth i unigolion o'r fath. Dylai rhaglenni fynd y tu hwnt i'r gofynion rheoleiddiol o ran iechyd a diogelwch yn y gwaith.

**Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET):** Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar adeg yr ymyriad gyda'r gweithrediad a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n economaidd anweithgar.

**Rhiant Sengl:** Ystyr rhiant sengl yw person â phlentyn dibynnol (pa un a yw'n perthyn i'r plentyn ai peidio) sy'n byw ar aelwyd heb unrhyw bobl eraill. Ystyr plentyn dibynnol yw person sy'n 0-15 oed neu'n 16-18 oed ac mewn addysg lawn-amser. Dylid gofyn i gyfranogwyr a oes ganddynt gyfrifoldeb gofalu llwyr am blentyn / plant.

**Rhwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf:** Mae Rhwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf yn rhan o Agenda Ddigidol y Comisiwn Ewropeaidd a lansiwyd ym mis Mai 2010 ac sy'n cyfeirio at ddarpariaeth ac argaeledd band eang cyflym erbyn 2013 a band eang cyflym iawn erbyn 2020, gweler: http://europa.eu/legislation_summaries/information_society/strategies/si0018_en.htm

**Rhwystrau Cymhleth:** Mae hyn yn cyfeirio at y rhwystrau canlynol i symudedd yn y farchnad lafur: sgiliau isel neu ddim sgiliau; cyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol); cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant; dros 54 oed; o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu o aelwyd ddi-waith.

Mae tri amcan strategol i'r rhaglen sy'n helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Dysgu
- Cymunedau Iachach

Mae gan y rhaglen 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd, rhyngddynt, yn gweithio gyda'r holl gymunedau sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y rhaglen.

**Rhyw:** Dyn neu fenyw.

## S

**Safle Natura 2000:** Cyfres o ardaloedd gwarchodedig daearol a morol ledled y Gymuned Ewropeaidd yw Natura 2000, sydd wedi'u rhannu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig dan Gyfarwyddeb Adar y GE ac yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r GE.

**Seilwaith:** Adeileddau ffisegol sy'n sylfaen i ddatblygiad busnes/sefydliad e.e. adeiladau, cyflenwad trydan/dŵr. Mae hyn hefyd yn cynnwys systemau a rhwydweithiau y mae eu hangen er mwyn i fusnes/sefydliad weithio.

**SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig):** Mae hyn yn golygu ardal a warchodir dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 am ei bod yn cynnwys nodweddion o ran bywyd gwyllt, daeareg neu'r tir sydd o bwysigrwydd arbennig.
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/sssis/?lang=en

**Stereoteip:** Mae stereoteipiau yn gyffredinoliadau am grŵp o bobl sy'n golygu ein bod yn priodoli set ddiffiniedig o nodweddion i'r grŵp hwn yn seiliedig ar eu hymddangosiad hwy neu ein rhagdybiaethau ni.

**Strategaeth Tlodi Tanwydd:** Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael iddi i ostwng nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r Strategaeth yn rhoi manylion y camau gweithredu a fydd yn hwyluso'r broses o gyrraedd y targed, sef, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, na fydd unrhyw aelwyd yng Nghymru'n byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2018. I gael mwy o wybodaeth am Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru dilynwch y ddolen isod.
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/fuelpoverty/strategy/?lang=cy

**System drafnidiaeth integredig:** System drafnidiaeth sy'n darparu opsiynau trafnidiaeth cyflenwol, cydgysylltiedig sy'n galluogi defnyddiwr i wneud siwrne effeithlon gan ddefnyddio sawl math o drafnidiaeth.

**Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau):** Trefn o arferion rheoli a strwythurau rheoli sydd wedi'i bwriadu i ddraenio dŵr wyneb mewn modd mwy cynaliadwy na rhai technegau confensiynol.

**T**

**Tangyflogedig:** Y diffiniad o hyn yw tanddefnyddio gallu cynhyrchiol pobl a gyflogir h.y. pan fo rhwystrau penodol yn atal pobl a gyflogir rhag gallu defnyddio'u galluedd presennol yn llawn er enghraifft trwy gynyddu oriau gwaith neu gael contract parhaol.

**Tegwch:** Pan fo pawb yn cael eu trin yn deg a chyfartal.

**Tlodi:** Yng Nghymru y diffiniad o dlodi yw 'Cyflwr hirdymor o fod heb adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu i gyfranogi mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaethau deniadol neu fannau agored) y mae eraill yn eu cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol'. Felly mae cysylltiad cryf rhwng Allgau Cymdeithasol neu'r gallu i gyfranogi a materion tlodi. Efallai yr hoffech gyfeirio hefyd at y termau Tlodi Absoliwt a/neu Tlodi Incwm Cymharol.

**Tlodi Absoliwt:**
Mae hwn yn derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn amryw wahanol ffyrdd i ddynodi lefel o dlodi sydd ddim yn newid dros amser, o ran y safon byw y mae'n cyfeirio ati. Mae'n aros yr un fath hyd yn oed os yw cymdeithas yn dod yn fwy ffyniannus. Mae tlodi absoliwt yn gyflwr a nodweddir gan sefyllfa lle mae pobl wedi'u hamddifadu'n ddifrifol o anghenion dynol sylfaenol, gan gynnwys bwyd, dŵr yfed diogel, cyfleusterau glanweithdra, iechyd, lloches, addysg a gwybodaeth. Mae'n dibynnu nid dim ond ar incwm ond ar fynediad at wasanaethau hefyd.

**Tlodi Incwm Cymharol:** Pan fo aelwyd yn byw ar 60% neu lai o incwm canolrifol y DU, ar ôl costau tai.

**Tlodi Mewn Gwaith:** Y diffiniad o hyn yw aelwyd, gydag o leiaf un aelod mewn cyflogaeth, sy'n byw ar 60% neu lai o incwm canolrifol y DU, ar ôl costau tai.

**Tlodi Tanwydd:** Caiff hyn ei ddiffinio fel aelwydydd sy'n gwario 10% neu fwy o'u hincwm net ar gostau ynni.

**Tlodi Tanwydd Difrifol:** Y diffiniad o hyn yw aelwydydd sy'n gwario 20% neu fwy o'u hincwm ar danwydd.

**Trafnidiaeth ryngfoddol:** Defnyddio dulliau trafnidiaeth niferus yn ystod siwrne.

**Tyrbin Gwynt:** Dyfais yw tyrbin gwynt sy’n trosi egni cinetig o’r gwynt yn bŵer trydanol.

**U**

**Undeb Credyd:** Mentrau cydweithredol ariannol yw Undebau Credyd sy’n canolbwyntio ar y gymuned ac yn cael eu rheoli gan eu haelodau, gan gynnig cynilon a benthyciadau. Mae’r ystod o gynnyrch a gynigir yn amrywio o un Undeb Credyd i’r llall. Mae’r incwm sy’n cael ei greu trwy fenthyca yn cael ei ddefnyddio i dalu eu treuliau gweithredol, i gronni cronfeydd wrth gefn a thalu difidendau i gynilwyr lle bynnag y bo’n bosibl.

Y

**Y Farchnad Waith Leol:** Nifer y bobl o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yng Nghymru.

**Ymfudwr / Gweithiwr Mudol:** Ystyr ymfudwr / gweithiwr mudol yw person sydd wedi newid y wlad y mae’n preswylio ynddi am o leiaf flwyddyn i’r DU, ond nad yw’n ddinesydd y DU.

**Ynni Adnewyddadwy:** Diffinnir ynni adnewyddadwy yn gyffredinol fel ynni sy’n dod o adnoddau sy’n cael eu hadnewyddu’n naturiol ar raddfa amser ddynol megis golau’r haul, gwynt, glaw, llanwau a thonnau.

**Ynni’r Llanw:** Trydan a gynhyrchir trwy ddadleoli dŵr yn fertigol trwy lanwau. Gellir ei gynhyrchu trwy ddefnyddio tyrbinau tanddwr, sydd fel arfer yn gysylltiedig ag argaeau neu lagwnau llanw artiffisial (sy’n rhyddhau’r dŵr sy’n cael ei storio ar lefel llanw uchel).

**Ynni’r Tonnau:** Trydan a gynhyrchir trwy symudiad y tonnau.